OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 411 (Cy.58)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2003

Wedi'u gwneud - -	*26 Chwefror 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Mawrth 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enw, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2003 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2003.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2001(**2**).

Diwygio'r Prif Reoliadau

2.—(1) Diwygir y prif Reoliadau yn unol â darpariaethau canlynol y Rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 5(2), dilëir paragraff (ch).

(3) Yn rheoliad 8(1) yn lle "30 diwrnod" rhoddir "60 diwrnod".

(4) Yn rheoliad 8(2), dilëir paragraff (ch).

(5) Yn rheoliad 8(3) yn lle "ym Mharc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ" rhoddir "yn y cyfeiriad a nodir yn y penderfyniad a roddir o dan reoliad 7(2) uchod".

(6) Yn rheoliad 11(1) yn lle "30 diwrnod" rhoddir "60 diwrnod".

(7) Yn rheoliad 11(3) yn lle "ym Mharc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ" rhoddir "yn y cyfeiriad a nodir yn y penderfyniad a roddir o dan reoliad 10(2) uchod".

(**1**) 1972 p.68. Dynodwyd y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion adran 2(2) gan Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 1999 (O.S. 1999/2788).
(**2**) O.S. 2001/2537 (Cy.212).